Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Hawliau Pobl Anabl:

## Diweddariad ar beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma

## Cymdogaethau, lleoedd, a thrafnidiaeth





**Awst 2026**

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Gynllun Hawliau Pobl Anabl - Diweddariad Cynnydd Chwarterol ar: Cymdogaethau, lleoedd, a thrafnidiaeth**



Efallai y byddwch chi angen help i’w darllen. Gallwch ofyn i rhywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu chi.



Gall geiriau mewn **glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth maen nhw’n ei olygu ar **dudalen 36**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae’r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** llyw.cymru/cynllun-hawliau-pobl-anabl-2025-i-2035

**E-bost:** TimCynhwysiantPoblAnabl@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio lluniau **Photosymbols**. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl.

# Cynnwys

Am y diweddariad yma ........ 4

Trafnidiaeth ........ 7

Tai ........ 18

Model Cymdeithasol o Anabledd ........ 26

Geiriau anodd ........ 36

# Am y diweddariad yma




Fe wnaethon ni gynllun 10 mlynedd ar gyfer hawliau pobl anabl yng Nghymru.




Enw'r cynllun ydy: **Cynllun Hawliau Pobl Anabl - Beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2025 a 2035**.



Mae'r cynllun am beth fyddwn ni'n ei  wneud fel bod Cymru'n fwy cyfartal i bobl anabl.



**Mae’r cynllun wedi ei seilio ar 4 prif faes:**



- Cymdogaethau, lleoedd, a thrafnidiaeth



- Swyddi, arian, ac addysg



- Byw’n annibynnol, iechyd a gofal cymdeithasol



- Cyfiawnder



Mae’r diweddariad yma am **gymdogaethau, lleoedd a thrafnidiaeth.**




Fe fyddwn ni’n ysgrifennu diweddariadau am feysydd eraill y Cynllun rhwng Medi a Rhagfyr 2026.

## Gwybodaeth am leoedd parcio Bathodyn Glas



Rydyn ni eisiau i bobl ddod o hyd i wybodaeth am fannau parcio Bathodyn Glas yn haws.



Mae llawer o gynghorau lleol yn rhannu gwybodaeth am fannau parcio Bathodyn Glas.



Ond dydy'r wybodaeth ddim yr un fath ar draws Cymru.



Rydyn ni'n darganfod ble mae mannau parcio Bathodyn Glas a faint sydd yna.



Rydyn ni'n gweithio gyda:

- Trafnidiaeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Parcio Prydain



Gyda'n gilydd, rydyn ni eisiau gwneud gwybodaeth am barcio Bathodyn Glas yn haws i ddod o hyd iddo ar-lein.




Fe fyddwn ni'n parhau i weithio ar hyn yn 2026 a 2027.

## Pobl anabl yn helpu i wella systemau trafnidiaeth



Rydyn ni eisiau i bobl anabl gael mwy o lais mewn trafnidiaeth.



Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i sefydlu grwpiau i helpu gyda hyn:

- Bwrdd Teithio Cynhwysol
- Panel Teithio Pobl Anabl

**Drwy'r grwpiau, mae pobl anabl yn gallu helpu i:**



- Newid gwasanaethau trafnidiaeth





- Gwneud yn siŵr bod **polisïau** trafnidiaeth yn meddwl am anghenion pobl anabl.

> Mae **polisi** yn set o reolau ar gyfer sut y dylid gwneud pethau.



- Yn rhannu'r problemau a'r pethau sy'n gwneud trafnidiaeth yn anodd i bobl anabl



- Edrych i weld fod pethau'n cael eu gwella

## Cynnwys plant a phobl ifanc



Rydyn ni eisiau i blant a phobl ifanc anabl gael dweud eu dweud am systemau trafnidiaeth.



Mae Trafnidiaeth Cymru yn sefydlu Panel Plant a Phobl Ifanc. Fe fydd y panel yn cynnwys plant a phobl ifanc anabl.



Fe fydd rhieni a gofalwyr hefyd yn gallu rhannu beth maen nhw’n feddwl.



Fe fydd y panel yn gweithio gyda grwpiau trafnidiaeth eraill.

## Hyfforddiant ar gyfer staff trafnidiaeth



Rydyn ni eisiau i hyfforddiant i staff trafnidiaeth fod yr un fath ar draws Cymru.



Mae Trafnidiaeth Cymru wedi edrych ar yr hyfforddiant maen nhw'n ei roi i'w staff.

**Maen nhw wedi gwneud yn siŵr bod hyfforddiant staff yn cynnwys:**




- Cyfraith Anabledd a Chydraddoldeb



- Cŵn tywys a chymorth



- Gwasanaeth cwsmeriaid da



- **Model Cymdeithasol o Anabledd**.





Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn ffordd o feddwl am ac edrych ar anabledd.

Mae'n dweud bod y ffordd mae pethau'n gweithio yn stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud. Dim eu amhariad na'u gwahaniaeth.

Mae angen i ni wneud newidiadau ac addasu fel bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl.



Rydyn ni hefyd wedi gwneud fideos hyfforddi gyda phobl anabl.



Mae'r fideos yn helpu tacsis a gyrwyr preifat. Maen nhw am:

- Cefnogi defnyddwyr cadeiriau olwyn
- Hyfforddiant colli golwg
- Profiadau personol pobl

# Gwybodaeth am drafnidiaeth ar-lein



Rydyn ni eisiau i wasanaethau trafnidiaeth ar-lein fod yn **hygyrch**.



Mae **hygyrch** yn meddwl rhywbeth mae unrhyw un yn gallu ei ddefnyddio yn hawdd.




Mae Trafnidiaeth Cymru yn datblygu **offeryn cynllunio teithiau** newydd.

**Fe fydd yr offeryn yn helpu pobl i:**




- Cynllunio teithiau




- Dod o hyd i lwybrau **hygyrch**




- Dod o hyd i wasanaethau sy’n ateb eu hanghenion




Fe fydd fersiwn gyntaf yr offeryn yn barod yn nes ymlaen yn 2026.

## Trafnidiaeth mewn ardaloedd cefn gwlad



Rydyn ni wedi newid y ffordd rydyn ni'n ariannu trafnidiaeth.



Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod rhaid i gynlluniau trafnidiaeth ym mhob rhan o Gymru feddwl am anghenion gwahanol pobl.



Pan fydd gwasanaethau trafnidiaeth yn cael eu cynllunio, rhaid i ddarparwyr ddilyn 5 egwyddor teithio:

- Teimlo'n ddiogel
- Teimlo croeso
- Gwneud trafnidiaeth yn **hygyrch**
- Cynnwys pobl
- Gwneud newidiadau cadarnhaol



Mae'r gwaith yma yn gwneud yn siŵr bod anghenion pobl yn cael eu cynllunio. Mae hyn yn cynnwys pobl mewn ardaloedd cefn gwlad. Fel bod angen iddyn nhw ddibynnu llai ar newidiadau sy'n cael eu gwneud yn nes ymlaen.

## Tai hygyrch



Rydyn ni eisiau i bobl anabl ddod o hyd i gartrefi **hygyrch** yn hawdd.



Mae hyn yn cynnwys tai ar gyfer:

- Pobl anabl
- Eu plant
- Eu gofalwyr



Rydyn ni'n gweithio i wneud yn siŵr bod gan bobl anabl gartrefi **hygyrch** i fynd iddyn nhw, pan fydd angen iddyn nhw ddianc o sefyllfaoedd sydd ddim yn ddiogel.



Fe fydd cynghorau lleol yn cadw gwybodaeth am yr holl gartrefi **hygyrch** yn eu hardal. Mae hyn yn cael ei alw yn **gofrestr tai hygyrch**.



Fe fydd hyn yn helpu cynghorau i osod pobl mewn cartrefi sy'n ateb eu hanghenion.

## Gwneud cartrefi yn fwy hygyrch



Rydyn ni eisiau i **hygyrchedd** fod yn rhan fwy o sut mae tai yn cael eu gwneud.




Rydyn ni'n edrych ar safonau tai yng Nghymru. Safon ydy pa mor dda mae disgwyl i wasanaeth fod.



Rydyn ni'n edrych ar sut rydyn ni'n gallu gwella safonau **hygyrchedd**.



Rydyn ni'n gweithio i gael y safonau yma ym mhob tŷ. Dim tai cymdeithasol yn unig.

## Addasiadau cartref



Rydyn ni'n helpu cynghorau i dalu am addasiadau cartrefi.



Mae'r rhain yn newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'ch cartref i'w gwneud yn haws ac yn fwy diogel i'w ddefnyddio. Mae hyn yn gallu cynnwys:

- Rampiau
- Rheiliau cydio
- Cawodydd cerdded i mewn
- Lifftiau grisiau
- Mwy o newidiadau i'r cartref





Mae'r newidiadau yma yn gallu helpu pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n annibynnol.



Rydyn ni'n cysylltu hyn gyda'n gwaith arall i wneud yr holl dai yn fwy **hygyrch**.




Rydyn ni eisiau i gartrefi newydd gael eu hadeiladu i ateb anghenion pobl anabl o'r dechrau, dim eu hychwanegu yn nes ymlaen.

# Gwybodaeth am dai




Rydyn ni eisiau i bobl ddod o hyd i wybodaeth am dai yn hawdd.



Mae hyn yn cynnwys pobl sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd.




Mae Tai Pawb wedi gwneud canllawiau i ddarparwyr am anabledd a thai. Mae'r canllawiau ar gael yma: [taipawb.org/cy/resource_theme/tai-hygyrch](taipawb.org/cy/resource_theme/tai-hygyrch)



Fe fydd cofrestrau **tai hygyrch Cynghorau** yn rhoi gwybodaeth am gartrefi **hygyrch**.

## Hyfforddiant ar gyfer sefydliadau tai



Rydyn ni eisiau i staff tai ddeall anghenion pobl anabl yn well.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau pobl anabl ac arbenigwyr tai.



Fe fyddan nhw'n helpu i wneud hyfforddiant **hygyrchedd** i sefydliadau tai.




Fe fydd hyn yn helpu staff tai i wybod mwy am anghenion pobl anabl.

## Problemau mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i dai



Rydyn ni’n gweithio i wybod mwy am y problemau mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth ddod o hyd i dŷ a’i gadw.



Rydyn ni’n siarad â phobl sy’n gweithio ar **bolisi** tai.




Rydyn ni’n siarad am:

- Costau tai
- Diogelwch tai
- Cynlluniau tai yng Nghymru



Mae hyn yn cynnwys edrych ar brofiadau pobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr anabl.

# Model Cymdeithasol o Anabledd

## Defnyddio'r Model Cymdeithasol



Rydyn ni eisiau defnyddio'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn ein gwaith.



Mae hyn yn golygu cael gwared ar rwystrau sy'n wynebu pobl anabl.




Rydyn ni'n gwella canllawiau i sefydliadau.

**Mae’r canllawiau yn cefnogi cyflogwyr i:**



- Creu mwy o gyfleoedd gwaith i bobl anabl



- Ymuno â’r Cynllun Hyderus o ran Anabledd. Mae hwn yn gynllun sy’n helpu cyflogwyr i gefnogi pobl anabl yn y gwaith

## Hyfforddi



Rydyn ni eisiau i fwy o weithwyr ddeall y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



Rydyn ni yn gwneud yn siŵr bod hyfforddiant **Model Cymdeithasol o Anabledd** ar gael i wasanaethau cyhoeddus.




Fe fydd yr hyfforddiant yn rhad ac am ddim.



Mae cyflogwyr preifat yn gallu cael hyfforddiant drwy Busnes Cymru.



Mae yna hefyd hyfforddiant ar-lein am ddim i gyflogwyr a gweithwyr.




Mae'r hyfforddiant ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Gwneud gwaith y llywodraeth yn fwy hygyrch




Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr nad ydy **polisïau'n** gwneud pethau'n anoddach i bobl anabl.



Rydyn ni'n edrych ar ein **polisïau** gwaith.



Fe fydd pobl anabl yn helpu i edrych ar, a newid **polisïau** newydd.



Rydyn ni'n gweithio i'w gwneud hi'n haws i bobl anabl ymuno â Byrddau. Mae Byrddau yn helpu i wneud penderfyniadau ac edrych ar sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu rhedeg.

**Rydyn ni eisiau:**




- Gwneud gwybodaeth yn haws i'w deall

- Gwneud ceisiadau yn haws i'w cwblhau



- Gwneud y broses yn fwy **hygyrch**

- Darparu cymorth ar gyfer anghenion pobl



Rydyn ni'n gweithio gyda chydweithwyr anabl. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl.



Maen nhw'n defnyddio profiadau hunain i helpu i wella gwaith i bobl anabl.



Rydyn ni'n gwrando ar gydweithwyr anabl am eu profiadau yn y gwaith.



Rydyn ni eisiau deall beth sy'n gwneud gwaith yn anodd iddyn nhw.



Fe fyddwn ni'n defnyddio beth rydyn ni'n ei ddysgu i wneud pethau'n well.




Fe fydd hyn yn ein helpu i wella ein polisïau, ein prosesau a'n ffyrdd o weithio.

# Newid yn yr hinsawdd




Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod cynlluniau hinsawdd yn gweithio i bawb.




Fe wnaethon ni gynllun o'r enw Fframwaith Pontio Cyfiawn ym mis Rhagfyr 2025.



Mae'n ein helpu i feddwl am sut mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bobl. Mae hyn yn cynnwys pobl anabl.




Rydyn ni'n defnyddio'r cynllun yn ein gwaith.



Rydyn ni hefyd yn siarad â sefydliadau cyhoeddus, busnesau a grwpiau cymunedol am y cynllun.

# Tasglu Hawliau Anabledd




Rydyn ni eisiau creu camau gweithredu newydd i wella bywydau pobl anabl.



Fe fydd y camau yma yn adeiladu ar waith y **Tasglu Hawliau Anabledd**.




Roedd y **Tasglu Hawliau Anabledd** yn grŵp o bobl oedd yn gweithio gyda'i gilydd.




Fe wnaethon nhw awgrymu newidiadau i wneud bywyd yn well i bobl anabl yng Nghymru.



Mae’r Tîm Cynhwysiant Pobl Anabl yn gweithio gyda’r Bwrdd Cynghori Allanol.



Fe fyddan nhw’n edrych ar awgrymiadau’r **Tasglu**.



Fe fyddan nhw’n defnyddio’r awgrymiadau wrth gynllunio camau gweithredu newydd ar gyfer pobl anabl.

# Geiriau anodd

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl rhywbeth mae unrhyw un yn gallu ei ddefnyddio yn hawdd.

## Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn ffordd o feddwl am ac edrych ar anabledd.

Mae'n dweud bod y ffordd mae pethau'n gweithio yn stopio pobl anabl rhag gwneud pethau mae pobl sydd ddim yn anabl yn eu gwneud. Dim eu amhariad na'u gwahaniaeth.

Mae angen i ni wneud newidiadau ac addasu fel bod gwasanaethau yn ateb anghenion pobl.

## Polisi

Mae polisi yn set o reolau ar gyfer sut y dylid gwneud pethau.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247